Hawdd ei ddeall

# Cronfa Adfer Diwylliannol 3

# Arian i helpu cyrff celfyddydol yn ystod coronafeirws

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cronfa Adfer Diwylliannol 3 – Canllaw i Gyrff Celfyddydol**.'

**Ionawr 2022**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 31**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** grants@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

**Gwefan:** arts.wales/about-us/contact-us




Os ydych chi eisiau'r wybodaeth yma mewn fformat gwahanol, gofynnwch inni os gwelwch yn dda. Os ydych chi angen gwybodaeth mewn iaith arall, fe fyddwn ni'n ceisio eich helpu chi.

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad....................................................................................4**

**Am y ddogfen yma...........................................................................5**

**Am y Gronfa Adfer Diwylliannol 3.....................................................6**

Ar beth mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio............................7

Pwy sydd yn gallu gwneud cais..............................................................8

Am faint rydych chi'n gallu gwneud cais..............................................11

Rheolau nawdd y DU.............................................................................13

Pryd i wneud cais..................................................................................14

Y contract diwylliannol.........................................................................15

**Beth mae angen i chi ei wneud..........................................................17**

**Beth mae angen i chi ei ddweud wrthyn ni.........................................20**

Am yr arian rydych chi ei angen............................................................20

Am eich corff..........................................................................................22

**Sut rydyn ni'n gwneud ein penderfyniad..........................................25**

**Beth os oes gen i gwestiwn?.............................................................27**

**Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth.......................................28**

**Cwynion...............................................................................................30**

**Geiriau Anodd.....................................................................................31**

# Cyflwyniad

Ni ydy Cyngor Celfyddydau Cymru.




Rydyn ni'n gwybod bod y pandemig wedi bod yn anodd i gyrff celfyddydau. Yn enwedig yn y gaeaf pan mae'r coronafeirws yn gallu bod yn waeth.




Mae gennym ni **gronfa** o'r enw y **Gronfa Adfer Diwylliannol 3**.

**Cronfa** ydy arian mae cyrff yn gallu ei gael i'w helpu nhw i wneud eu gwaith.



Fe fydd y **gronfa** yma yn eich helpu chi i dal i redeg yn y gaeaf.




Fe fydd y ddogfen yma yn eich helpu chi i wneud cais am y **Gronfa Adfer Diwylliannol**.

# Am y ddogfen yma




Mae’r ddogfen yma ar gyfer cyrff celfyddydol.



Os ydy eich corff yn amgueddfa, llyfrgell neu sinema, peidwch â defnyddio’r ddogfen yma.

# Am y Gronfa Adfer Diwylliannol




Mae'r **gronfa** yma ar gyfer cyrff celfyddydol sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig.




Er enghraifft, efallai eich bod chi wedi gorfod cau. Neu efallai bydd pobl yn colli eu swyddi.




Mae'r **gronfa** yma ar gyfer cyrff yng Nghymru a fydd ar agor tan Mawrth 2022.



Fe fydd angen i chi ddangos nad oes gennych chi ddim arian arall rydych chi'n gallu ei ddefnyddio.




Fe ddylech chi fod wedi gwneud cais am ein **Cronfa Adfer Diwylliannol** ym mis Mai 2021.




Os nad ydych wedi gwneud hynny, rydych chi angen cael caniatad cyn i chi wneud cais am y **gronfa** yma.

# Ar beth mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio

Mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i'ch cefnogi chi gyda'ch costau rhedeg. Mae hyn yn meddwl eich costau busnes fel:



- cyflogau staff



- rhent a chostau adeiladu. Fel yswiriant, gwaith adeiladu a diogelwch



- cyfleustodau – dŵr, trydan, nwy, ffôn a rhyngrwyd



- offer rhent fel cyfrifiaduron i'r swyddfa. Paratoi ar gyfer cyrff yn ailagor



- costau cyfreithiol a phroffesiynol.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais


Rhaid i'ch corff fod yn 1 o'r rhain:

- **Cwmni Cyfyngedig gan Warant**
- **Elusen Gofrestredig (yn cynnwys ymddiriedolaethau elusennol)**
- **Cyrff Ymgorfforedig Elusennol (CIO)**
- **Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC)**
- **Cwmni Cyfyngedig gan gyfranddaliadau**
- **Cymdeithas Anghorfforedig**
- **Partneriaeth, yn cynnwys Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig**
- **Prifysgol neu gorff cyhoeddus arall yn rhedeg gweithgaredd celfyddydol.**



**Rhaid i'ch corff:**

- ddarparu gweithgaredd celfyddydol y mae pobl yn gallu ei fwynhau a chymryd rhan ynddo. Rhaid i chi allu dangos hyn



- gwneud o leiaf hanner ei waith mewn math o gelfyddyd rydyn ni'n ei gefnogi. Er enghraifft, cerddoriaeth, dawns, theatr neu'r celfyddydau gweledol.




- gwneud y rhan fwyaf o'i waith yng Nghymru



- peidio bod yn ddyledus o ran arian nac yn gweithio ar **gronfeydd** eraill gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** neu **Lywodraeth Cymru**




- peidio bod wedi torri unrhyw **reolau COVID**. Os ydych chi'n torri unrhyw **reolau COVID**, efallai y byddwn ni'n gofyn am yr arian yn ôl.



Rydych chi'n gallu cael y **gronfa** yma ochr yn ochr â **chronfeydd** Llywodraeth eraill i gefnogi cyrff drwy coronafeirws.



Dydych chi ddim yn gallu cael arian o'r **gronfa** yma i wario ar bethau mae **cronfa** arall yn talu amdanyn nhw.

Os ydych chi fel arfer yn cael **arian cyhoeddus** i redeg eich corff fe ddylai hyn barhau.



**Arian cyhoeddus** ydy talu am bethau ag arian gan y cyhoedd. Mae'n gallu cael ei drefnu gan rywun fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Cenedlaethol neu brifysgol.

**Dydy'r gronfa yma ddim ar gyfer:**



- unigolion, **llawrydd**, ac unig fasnachwyr

> **Llawrydd** ydy gweithio i chi eich hun neu hunangyflogedig. Rydych chi'n gallu gwneud darnau bach o waith i gyrff yn llawrydd.

- cyrff a lleoliadau sydd yn cael eu rheoli yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol
- gwyliau a digwyddiadau
- lleoliadau cerddoriaeth a bandiau, lleoliadau comedi, cyhoeddi, ffilm a theledu, diwydiannau creadigol
- gwasanaethau cymorth technegol
- sinemâu **annibynnol**



> **annibynnol** ydy gwneud pethau i chi'ch hun a gwneud eich penderfyniadau eich hun.

- gweithgareddau a fyddai'n rhan o'ch rhaglen arferol
- ysgolion

# Am faint rydych chi'n gallu gwneud cais



Rydych chi'n gallu gwneud cais am **100 mil o bunnoedd**. Rydyn ni'n meddwl y bydd y rhan fwyaf o gyrff yn gwneud cais am lai na 50 mil o bunnoedd.




Mae'r arian yma yn gallu eich helpu chi gyda'r arian rydych chi wedi ei golli rhwng **Rhagfyr 2021 a 14 Chwefror 2022**.




Os ydych chi'n leoliad neu'n sefydliad sy'n gweithio wyneb yn wyneb â'r cyhoedd ac y codi tâl am eich gwaith, gallwch chi hefyd gynnwys costau o 21 Hydref ymlaen.



Os ydych chi angen mwy na 100 mil o bunnoedd, siaradwch â ni i ddechrau. Efallai gallwch chi wneud cais am hyd at £500,000.



Rhaid i chi gael rheswm da iawn dros wneud cais am fwy na 100 mil o bunnoedd.




Rydych chi'n gallu gwneud cais am arian i dalu costau gwneud eich lleoliad yn COVID ddiogel.




Ond dim ond os nad oes gennych chi arian i wneud hynny eich hun.



Enw'r costau yma ydy **Costau Cyfalaf.**

**Costau cyfalaf** ydy arian i brynu pethau unwaith rydych chi eu hangen i gadw eich corff ar agor. Er enghraifft, offer i wneud eich adeilad yn ddiogel i ailagor. Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at 5 mil o bunnoedd o gostau cyfalaf yn y cais yma.




Mae llawer o gyrff wedi cael eu heffeithio gan coronafeirws. Rhaid inni gefnogi cyrff sydd fwyaf mewn angen.



Meddyliwch yn ofalus iawn os gwelwch yn dda os ydych chi angen gwneud cais am yr arian yma

# Rheolau nawdd y DU



Os ydych chi'n cael llawer o arian o'r **gronfa** yma efallai y bydd yn cael ei weld yn annheg.



Efallai y bydd yn gwneud 1 corff yn well allan nag un arall.




Mae gan y DU reolau am hyn or **enw rheolau nawdd y DU.**




Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau ar gael drwy glicio yma: www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-bill.



Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n dilyn **rheolau nawdd y DU**.



Os ydych chi eisiau rhagor o help fe fydd angen i chi gael eich **cyngor cyfreithiol** eich hun.

**Cyngor cyfreithiol** ydy cael help i ddeall gwybodaeth am y gyfraith a'ch hawliau.

# Pryd i wneud cais




Mae'r **Gronfa Adfer Diwylliannol** yn agor **ddydd Mercher 12 Ionawr 2022**.




Rhaid i chi anfon eich cais ar-lein erbyn **5pm ddydd Mercher 26 Ionawr2022.**



Efalli y bydd rhaid inni newid y dyddiadau yma.




Edrychwch ar ein gwefan am yr wybodaeth fwyaf diweddar os gwelwch yn dda.

# Y contract diwylliannol




Os ydych chi'n cael cymorth gan y G**ronfa Adfer Diwylliannol** fe fydd angen i chi lofnodi **Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru**.



**Mae'r contract diwylliannol** yn meddwl y byddwch chi'n meddwl am sut i wella bywydau pobl drwy eich gwaith

**Rydyn ni eisiau eich gweld yn rhoi pethau yn eich cynllun fel:**



- gwaith teg. Gwneud yn siŵr bod yna chwarae teg. A gweithio gyda gwahanol fathau o bobl ar eich tîm staff



- gwneud cyfleoedd i dyfu a chefnogi pobl **llawrydd** sydd yn gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru



- gweithio gyda phartneriaid i wella iechyd a **llesiant**

Mae **llesiant** yn meddwl bod person yn hapus, iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n wneud.



- edrych ar ôl ein **hamgylchedd**.

> Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.



Mae hwn yn rhan bwysig o'ch cais. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi manylion inni am beth byddwch chi'n ei wneud i wella bywydau pobl yng Nghymru.

# Beth mae angen i chi ei wneud




Rhaid i chi gofrestru ar ein gwefan cyn i chi wneud cais. Os ydych chi wedi gwneud hynny o’r blaen does dim angen i chi wneud hyn eto.




I ddarganfod pa ddogfennau mae angen i chi eu huwchlwytho cyn gwneud eich cais, ewch i’n gwefan: arts.wales/cy/ariannu.



Llanwch y ffurflen ar-lein yma. Ffurflen ar-lein: https://porth.celf.cymru.



Os ydych chi’n cael unrhyw broblemau gyda hyn, e-bostiwch ni ar: grants@arts.wales.



Pan fyddwn ni’n cael eich cais fe fyddwn ni’n anfon e-bost i roi gwybod i chi ein bod ni wedi ei dderbyn.



Fe fyddwn ni’n darllen yr wybodaeth rydych chi wedi ei rhoi inni. Efallai y bydd angen inni ofyn i chi am ragor o wybodaeth i wneud yn siŵr eich bod chi’n gallu gwneud cais am y **gronfa** yma.




Fe fyddwn ni’n gwneud rhai gwiriadau ac yn talu 45% o'ch cais ymlaen llaw. Mae hyn yn golygu y gallwch chi gael rhywfaint o’r arian yn gyflym cyn i ni asesu eich cais yn llawn.





Os ydyn ni’n penderfynu rhoi arian i chi fe fyddwn ni’n anfon **Ffurflen Derbyn Dyfarniad** i chi. Llanwch y ffurflen yma a’i hanfon yn ôl inni os gwelwch yn dda.



Fe fyddwn ni’n darllen eich cais ac yn gwirio bod yr arian yr ydych chi wedi gofyn amdano yn deg, ac yna byddwn ni’n talu'r 45% nesaf. Gallai'r swm hwn fod yn llai na’r hyn yr ydych wedi gofyn amdano.




Fe fyddwn ni’n anfon gweddill yr arian pan fyddwn ni wedi cael eich **Adroddiad Cwblhau.**




Fe ddylai eich **Adroddiad Cwblhau** ddweud wrthyn ni sut rydych chi wedi gwario’r arian. A faint o swyddi gafodd eu hachub.



Fe fyddwn ni’n ceisio dod yn ôl atoch chi mor fuan ag sy’n bosibl. Fe fyddwn ni’n dweud wrthych chi os ydy pethau yn cymryd mwy o amser am ryw reswm.

# Beth mae angen i chi ei ddweud wrthyn ni

## Am yr arian rydych chi ei angen

**Rydyn ni angen gwybod:**



Os ydych chi'n gymwys am y **gronfa** yma.




Manylion cyswllt.




Pam rydych chi'n gwneud cais am y **gronfa** yma.
Ac ar beth fyddwch chi'n defnyddio'r arian.



Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar eich busnes. A faint o arian rydych chi'n meddwl byddwch chi'n ei golli.



Beth fyddai'n digwydd os nad ydych chi'n cael y **gronfa** yma.




Faint o arian rydych chi'n meddwl y gallech chi ei gynilo. Er enghraifft oherwydd eich bod chi ar gau am ragor o amser.





Am unrhyw gostau eraill sydd gennych chi oherwydd coronafeirws.




Am unrhyw arian dros ben sydd gennych chi rydych chi'n gallu ei ddefnyddio.




Am unrhyw arian arall rydych chi'n ei gael i'ch helpu chi.




Sut rydych chi'n bwriadu gwneud eich busnes yn gryfach ar gyfer y dyfodol.




Rhowch brawf inni i gefnogi popeth rydych chi'n ei ddweud wrthyn ni os gwelwch yn dda.

# Am eich corff

**Rydyn ni angen gwybod:**



Sut byddwch chi'n ein helpu ni i ateb ein prif nodau o wella bywydau pobl yng Nghymru. Eich cynlluniau ar gyfer yr arian yma a sut y bydd yn helpu pobl, staff a gwirfoddolwyr. Nawr ac yn y dyfodol.



Sut bydd eich gwaith yn helpu'r iaith Gymraeg.




Gwybodaeth **cydraddoldeb**.

> Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r un cyfleoedd mewn bywyd.



Pa waith mae eich corff yn ei wneud i gefnogi celf yng Nghymru. Ac am wahanol ffurfiau celf eich gwaith.




Am gynlluniau gweithgaredd ar gyfer eich gwaith.





Lle bydd eich gwaith wedi ei leoli.



Sut mae eich gwaith yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru. www.futuregenerations.wales/cy.




Am **Nawdd DU**.




Gwybodaeth fel cyllideb. Rhaid i chi lawrlwytho templedi o'r ffurflen gais.




Manylion eich cyfrif banc DU. Rhaid i'ch cyfrif banc ateb ein gofynion. Cliciwch yma i ddarganfod rhagor. arts.wales/sites/default/files/2021-02/Bank%20Accounts%20%20-%20Organisations.pdf



Gwybodaeth am sut mae eich corff wedi ei sefydlu a'i drefnu yn gywir. Darllenwch ein dogfen Cymhwysedd a Llywodraethiant i ddarganfod rhagor. arts.wales/sites/default/files/2021-02/Eligibility%20and%20Governance.pdf

# Sut rydyn ni'n gwneud ein penderfyniad

Dydyn ni ddim yn gallu cefnogi pawb. I'n helpu ni i benderfynu pwy i'w gefnogi fe fyddwn ni'n meddwl am:




- ba mor ddifrifol ydy eich problemau arian
- pa mor bwysig ydy eich gwaith i bobl yng Nghymru
- os ydych chi'n rhoi cyfleoedd i artistiaid i weithio.

Mae'n bwysig inni gefnogi cyrff sydd yn:



- trin pawb yn deg
- gweithio gyda llawer o wahanol fathau o bobl
- gweithio i gyrraedd pobl sydd ddim fel arfer yn cymryd rhan yn y celfyddydau.

Rydyn ni yn arbennig eisiau cefnogi cyrff sydd yn ceisio gweithio mwy gyda:






- pobl fyddar ac anabl a phobl niwroamrywiol
- pobl ddu, Asiaidd a phobl amrywiol ethnig.
- siaradwyr Cymraeg.



Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dweud wrthyn ni am yr holl waith da rydych chi'n ei wneud. Er mwyn inni allu gwneud penderfyniad teg.




Fe fyddwn ni angen prawf bod eich staff yn cael eu talu yr **Isafswm Cyflog Cenedlaethol** a bod gweithwyr **llawrydd** yn cael taliad ffi cytun.




Yr **Isafswm Cyflog Cenedlaethol** ydy'r taliad lleiaf fesul awr y dylai gweithwyr ei gael yn ôl y gyfraith.

# Beth os oes gen i gwestiwn?



Rydyn ni eisiau trefnu'r arian yma yn gyflym. I'n helpu ni i wneud hyn yn dda, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ateb y cwestiynau yn glir ac yn onest os gwelwch yn dda.



Os ydych chi'n ateb cwestiwn gyda gwybodaeth anghywir, efallai bydd angen inni gymryd eich arian yn ôl. Neu efallai y byddwn ni'n cymryd camau cyfreithiol os ydyn ni'n meddwl bod hyn yn fwriadol.



Os ydych chi eisiau siarad â ni am eich cais, e-bostiwch ni neu anfonwch neges aton ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

**E-bost:** grants@arts.wales

**Gwefan:** Llenwch ffurflen ar ein gwefan

**Twitter:** Anfonwch neges aton ni @Arts_Wales_




Os ydych chi eisiau siarad â ni ar y ffôn, anfonwch eich rhif ffôn aton ni. Fe fyddwn ni'n eich ffonio mor fuan ag rydyn ni'n gallu.

# Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth



Rydyn ni'n credu bod gan bobl yr hawl i weld sut rydyn ni'n gwario'r arian sydd gennym ni.




Os hoffech chi wybod rhagor am hyn, ewch i'n gwefan: arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/rhyddid-gwybodaeth.




Oherwydd ein bod ni'n gorff cyhoeddus, rhaid inni yn ôl y gyfraith adael i bobl weld i bwy rydyn ni'n rhoi arian.



Mae hyn yn meddwl bod pobl eraill yn gallu gweld rhywfaint o'ch gwybodaeth.




Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan Rhyddid Gwybodaeth: https://cy.ico.org.uk/.




Rydyn ni'n dilyn cyfraith o'r enw **GDPR** (**y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data**). Mae hyn yn meddwl nad ydy gwybodaeth bersonol ddim yn cael ei rhannu heb eich caniatad chi. Os nad oes deddf wedi ei thorri.



Fe fyddwn ni'n rhannu rhywfaint o wybodaeth gyda chyrff allanol sydd yn helpu i ddiogelu yn erbyn twyll. Twyll ydy pan mae rhywun yn dweud celwydd i gael arian.




Os ydych chi eisiau gwybod rhagor am hyn, darllenwch ein polisi preifatrwydd yma: [arts.wales/cy/polisi-preifatrwydd](arts.wales/cy/polisi-preifatrwydd).

# Cwynion




Os nad ydych chi'n hapus gyda sut rydyn ni'n delio â'ch cais, rydych chi'n gallu gwneud cwyn. I ddarganfod sut i gwyno, ewch i'n gwefan: arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cwynion.




Rydych chi'n gallu cwyno os ydych chi'n meddwl nad ydyn ni wedi delio â'ch cais yn gywir. Dydych chi ddim yn gallu cwyno i geisio newid ein penderfyniad am roi arian i chi neu beidio.

# Geiriau Anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw, Mae'n meddwl y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Arian cyhoeddus

Mae arian cyhoeddus yn meddwl talu am rywbeth ag arian gan y cyhoedd. Mae'n gallu cael ei drefnu gan rywun fel Cyngor Celfyddydau Cymru, y Loteri Cenedlaethol neu brifysgol

## Costau Cyfalaf

Mae costau cyfalaf i brynu pethau unwaith rydych chi eu hangen i gadw eich corff ar agor. Er enghraifft, offer i wneud eich adeilad yn ddiogel i ailagor. Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at 5 mil o gostau cyfalaf yn y cais yma.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pawb yn deg a gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw yr un cyfleoedd mewn bywyd.

## Cronfa

Cronfa ydy arian mae corff yn gallu ei gael i'w helpu nhw i wneud eu gwaith.

## Llawrydd

Mae llawrydd yn meddwl gweithio i chi'ch hun neu yn hunangyflogedig. Rydych chi'n gallu gwneud darnau bach o waith i gyrff fel gweithiwr llawrydd.

## Llesiant

Mae llesiant yn meddwl bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'u bywyd a beth maen nhw'n ei wneud